# PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

## CYLLIDEB 2001-02: LLYWODRAETH LEOL, TAI AC ADNEWYDDU TREFOL

### Diben

1. Gwneud sylwadau ar y gyllideb ddrafft ar gyfer y 3 blynedd rhwng 2001 a 2004, fel y'i cyflwynwyd gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ac a drafodwyd yn y Cyfarfod Llawn ar 26 Hydref 2000. Gwneud sylwadau hefyd ar y diwygiadau arfaethedig i'r Canlyniadau ar gyfer 2003 yn *gwellcymru.com* a'r meincnodau ar gyfer 2010.

### Argymhelliad

2. Bod y Pwyllgor yn gwneud sylwadau ar y gyllideb ddrafft yn Atodiad 1 a'r newidiadau arfaethedig i *gwellcymru.com* yn Atodiad 5.

### Cefndir

3. Lansiwyd cylch y gyllideb ym mis Mai gyda phapur gan Edwina Hart "Adeiladu Gwell Cymru Gyda'n Gilydd". Nodwyd blaenoriaethau'r Pwyllgor ar gyfer y cylch cynllunio mewn llythyr oddi wrth y Cadeirydd at Peter Law (Atodiad 2). Mae'r tablau yn Atodiad 3 yn dangos sut y bydd y gyllideb yn mynd i'r afael â phob un o flaenoriaethau'r Pwyllgor.

4. Yna pennwyd cyllideb ddrafft y Cynulliad gan Edwina Hart, ac wedi ystyried sylwadau'r pwyllgorau pwnc, bydd yn cynnig y gyllideb derfynol tua 7 Rhagfyr 2000. Prif bryderon y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai oedd bod awdurdodau lleol wedi cael eu tanariannu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan arwain at orwario, ond na ddylid mynd i'r afael â'r diffyg ariannol drwy ragor o godiadau yn y dreth gyngor. Mae'r gyllideb ddrafft yn rhoi lle i awdurdodau lleol gynyddu gwariant ar wasanaethau, yn arbennig ar rai o flaenoriaethau allweddol y Cynulliad sef addysg a gwasanaethau cymdeithasol.

5. Eleni, mae cylch cynllunio'r gyllideb wedi'i nodweddu gan gysylltiad agos rhwng gwario a chanlyniadau. Bu'r Pwyllgorau'n ystyried blaenoriaethau sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau a gweledigaeth *gwellcymru.com*. Mae'r cam nesaf hwn yn y broses yn ceisio cadw'r cysylltiad hwn.

6. I hwyluso hyn, mae'r nodiadau esboniadol yn Atodiad 4 yn rhoi sylwebaeth am brif adrannau'r gyllideb ddrafft, gan nodi'n eang pa weithgarwch ychwanegol a fyddai'n deillio o'r gyllideb dros dro.

**Fframwaith Deddfwriaethol a Chydymffurfio**

7. Paratowyd y papur hwn yn unol â Gorchymyn Sefydlog 19 y Cynulliad sy'n datgan: "Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r Cynulliad nodi'r gyllideb ddrafft, bydd pob Ysgrifennydd Cynulliad sy'n aelod o bwyllgor pwnc yn gwahodd ei sylwadau ar y gyllideb ddrafft ac yn eu trosglwyddo i Ysgrifennydd Cyllid y Cynulliad".

**Camau i'w Cymryd**

8. Gwahoddir y Pwyllgorau i wneud sylwadau am y newidiadau arfaethedig i adrannau'r canlyniadau yn *gwellcymru.com* o ganlyniad i'r gyllideb dros dro. Ar ddechrau'r cylch, nodwyd gan Mrs Hart ei bwriad i adolygu cynllun corfforaethol y Cynulliad, a phery'r bwriad hwnnw. Ar ôl ystyried barn bellach y Pwyllgorau, a phan fydd y gyllideb derfynol wedi'i chytuno, cyflwynir adolygiad drafft o *gwellcymru.com* ar gyfer ymgynghori cyhoeddus cyn dadl mewn cyfarfod llawn ym mis Mawrth 2001.

**Cyswllt Polisi**

9. Alan Thornton, Pennaeth yr Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol.